Metolazone

Gwybodaeth i gleifion

Rydych chi'n cael triniaeth â metolazone, diwretig thïasid (tabledi dŵr). Defnyddir Metolazone i leihau pwysedd gwaed ac mae'n helpu i gael gwared ar yr hylif ychwanegol sy'n cronni yn eich corff pan fydd gennych broblemau'r galon neu'r arennau.

Gwirio eich meddyginiaeth

Efallai y byddwch chi'n gwybod metolazone dan yr enw Xaqua® neu enw brand arall. Oni bai bod eich meddyg yn dweud wrthych fel arall, mae'n bwysig bob amser aros ar yr un brand metolazone.

Gall faint o gynhwysyn gweithredol (metolazone) sy'n cyrraedd eich system ac sy'n cael effaith amrywio gyda gwahanol frandiau metolazone, hyd yn oed os ydych chi'n cymryd yr un dos. Oherwydd hyn, bob tro y byddwch chi'n casglu'ch metolazone, gwnewch yn siŵr ei fod yn edrych yr un fath ag arfer. Dylai'r enw brand ar y pecyn gyd-fynd â'r enw brand a oedd ar eich presgripsiwn. Os nad ydyw, neu os nad ydych yn siŵr, gofynnwch i'ch fferyllydd wirio ar eich rhan.

Gwybodaeth dosio

Pan fyddwch chi'n dechrau metolazone, byddwch chi'n dechrau ar ddos isel. Bydd eich meddyg yn addasu'ch dos nes eich bod ar yr un sy'n gweithio i chi. Gall dod o hyd i'r dos cywir olygu bod angen i chi gymryd hanner tabled, neu gymryd y dos bob yn ail ddiwrnod. Bydd eich meddyg neu fferyllydd yn dweud wrthych faint o metolazone i'w gymryd.

Darllenwch y label ar eich meddyginiaeth yn ofalus bob amser i sicrhau eich bod yn cymryd y dos cywir. Mae hyn yn arbennig o bwysig os oes angen i chi dorri eich tabledi.

Sut i gymryd metolazone

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn cymryd metolazone unwaith y dydd, pan fyddant yn deffro yn y bore.

Dewiswch amser i gymryd y metolazone, ac a ydych chi'n mynd i'w gymryd cyn neu ar ôl bwyd. Ceisiwch gadw at yr amseroedd hyn. Llyncwch y tabledi gyda gwydraid o ddŵr.

Os byddwch yn anghofio cymryd dos, dylech ei gymryd pan fyddwch chi'n sylweddoli. Fodd bynnag, os yw bron yn amser ar gyfer y dos nesaf, peidiwch â chymryd yr un wedi'i anghofio yna cariwch ymlaen fel arfer. Peidiwch â defnyddio 2 ddos ar yr un pryd.

Pryd i ofyn am gyngor

Rhestrir sgîl-effeithiau metolazone yn y daflen wybodaeth i gleifion sy'n dod gyda'ch tabledi. Dywedwch wrth y tîm sy'n gofalu amdanoch os oes gennych unrhyw sgîl-effeithiau nad ydynt yn gwella, neu sy'n gwaethygu, neu os ydych:

- yn pasio llai o ddŵr neu'n chwydu
- ceg sych, poenau yn y cyhyrau neu crampiau, blinder cyhyrau, oeri, golwg aneglur, neu galon yn rasio
- teimlo'n wan, yn benysgafn neu'n cael pendro, diffyg anadlu, yn sychedig, aflonydd, gwan, gysglyd, yn flinedig, neu'n gyfoglyd
- sylwi bod eich pwysedd gwaed yn isel, os ydych chi'n defnyddio'ch monitor pwysedd gwaed eich hun gartref
- ennill pwysau neu os yw'ch traeth, pigyrnau, coesau, dwylo neu freichiau'n chwyddo ac mae hyn yn gwaethygu

Efallai y bydd angen addasu'ch dos metolazone. Peidiwch â rhoi'r gorau i driniaeth heb siarad â'ch meddyg am eich symptomau.

Mae teimlo'n benysgafn pan fyddwch chi'n sefyll i fyny (pwysedd isel orthostatig) yn sgîl-effaith gyffredin o metolazone. Ar gyfer pob 100 o bobl sy'n cymryd metolazone, mae rhwng 2 a 9 yn debygol o gael pwysedd isel orthostatig. Gall sefyll yn arafach helpu.
Os yw cymryd metolazone yn gwneud i chi deimlo'n benysgafn neu'n flinedig, peidiwch â gyrru na defnyddio offer neu beiriannau.

Gall triniaeth Metolazone arwain at broblemau golwg. Mae hyn yn anghyffredin ac fel arfer mae'n digwydd o fewn ychydig oriau neu wythnosau o ddechrau metolazone. Os byddwch chi'n sylwi ar unrhyw newidiadau i'ch golwg, gan gynnwys golwg aneglur neu boen yn eich llygaid, stopiwch gymryd metolazone a siaradwch â'ch meddyg ar unwaith.

Fel gyda phob meddyginiaeth, os byddwch yn profi unrhyw sgil effeithiau o'ch triniaeth, dylech roi gwybod i'ch meddyg, nyrs neu fferyllydd. Gallwch hefyd ddefnyddio'r ap Cerdyn Melyn (i'w lawrlwytho o Google Play neu Apple App Store) neu'r wefan i roi gwybod am sgil effeithiau.

Cyngor pellach

Darllenwch y daflen wybodaeth i gleifion sy'n dod gyda'ch meddyginiaeth bob amser.

Mae ar **wefan y GIG** a **Patient UK** ragor o wybodaeth am fethiant y galon, clefyd yr arennau a diwretigau thïasid.
Gwefan y GIG: https://www.nhs.uk/conditions/heart-failure/
a https://www.nhs.uk/conditions/kidney-disease/
Patient UK: https://patient.info/medicine/metolazone-a-diuretic-xaqua

Os oes gennych ymholiadau pellach am metolazone, trafodwch gydag aelod o'ch tîm clinigol neu fferyllydd sy'n gallu eich cynghori ar eich triniaeth.

Mae'r daflen hon yn seiliedig ar waith blaenorol gan y Gwasanaeth Fferylliaeth Arbenigol (GFfA)
This leaflet is also available in English. Mae'r daflen hon hefyd ar gael yn Saesneg.